# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, 11.09.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dewi Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Lesley Day, Tom Ellis, Jason Humphreys, Charles Wyn Jones, Dilwyn Morgan a Mandy Williams-Davies.

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorwyr Dyfed Edwards (Arweinydd y Cabinet a'r Cyngor) ac Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer).

**Swyddogion:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Huw Ynyr (Uwch Reolwr – TG a Thrawsnewid Busnes), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Anwen Davies, Selwyn Griffiths, Dyfrig Jones, Linda A.W.Jones, Sion Wyn Jones a Gareth Thomas.

Dymunwyd gwellhad buan i Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella) yn dilyn ei anhwylder diweddar.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mai, 2012 fel rhai cywir, yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Jason Humphreys yn bresennol yn y cyfarfod.

## 3. CEFNOGAETH I AELODAU – SYLWADAU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Cadeirydd yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniodd mewn ymateb i lythyr a anfonwyd ganddo at ei gyd-aelodau yn egluro rôl y pwyllgor hwn o safbwynt cefnogi aelodau.

Ymhelaethodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ar y sylwadau a ddaeth i law.

Galwodd y Cadeirydd am hyfforddiant i'r aelodau newydd yn y meysydd gwaith y mae'r pwyllgorau craffu yn edrych arnynt.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr – TG a Thrawsnewid Busnes ddiweddariad o'r sefyllfa o ran cyflwyno iPads i'r aelodau.

Derbyniwyd argraffiadau'r Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer ac Arweinydd y Cyngor yn sgil treialu'r defnydd o iPads dros y ddeufis diwethaf. Nodwyd y cafwyd rhai anawsterau a bod rhai cyfyngiadau, ond bod hyfforddiant yn allweddol ar gyfer aelodau sydd yn fwy cyffyrddus gyda phapur. Fodd bynnag, pwysleisiwyd mai uchelgais y Cyngor oedd peidio

defnyddio papur fel norm. ‘Roedd hyn yn mynd i gymryd amser, ond nid oedd yna unrhyw reswm pam na ellid gwneud hynny.

Ymatebodd yr Uwch Reolwr - TG a Thrawsnewid Busnes y gellir datrys anawsterau gydag agor dogfennau a phwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd cyfarwyddo'r holl adrannau i gyflwyno dogfennau i'r aelodau yn y ffurf fwyaf cywasgedig ar bob achlysur.

Mynegodd y Cadeirydd ei bryder y byddai nifer sylweddol o'r aelodau yn dal i ddymuno copïau papur o ddogfennau, ac ‘roedd yr aelodau a oedd yn bresennol yn amrywiol eu barn ar y mater.

Nodwyd y gallai fod yn anodd dilyn dogfen ar yr iPad os nad yw'r tudalennau wedi'u rhifo a bod angen i bob dogfen ddilyn yr un safon o safbwynt templed, rhifo tudalennau, ayb.

Nododd y Cadeirydd:-

(1) mai'r neges glir oedd bod yr hyfforddiant a'r perswâd yn hynod bwysig. Awgrymodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol y gellid manteisio ar brofiad yr aelodau hynny sydd eisoes yn defnyddio'r dechnoleg newydd i gyflawni eu gwaith fel aelodau o gyrff eraill, megis Awdurdod yr Heddlu, pan yn penderfynu sut orau i strwythuro'r hyfforddiant.

(2) ei bod yn bwysig amserlennu'r hyfforddiant cyn gynted â phosib' fel bod modd i'r aelodau gadw'r dyddiadau'n rhydd.

(3) ei bod yn bwysig sicrhau bod yna rywun ar ben arall y ffôn i helpu'r aelodau ac ymhelaethodd yr Uwch Reolwr - TG a Thrawsnewid Busnes ar y gefnogaeth a ddarperir gan Ddesg Gymorth y Cyngor.

Holwyd am y posibilrwydd o ddarparu iPads 3G. Atebodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol na ragwelai fod angen 3G ar gyfer trwch yr aelodau gan fod ganddynt gyswllt band eang gartref a bod Wi-fi ar gael yn holl ystafelloedd cyfarfod y Cyngor, ac ati. Fodd bynnag, os oedd natur gwaith yr aelodau yn golygu eu bod yn mynychu llawer o gyfarfodydd allanol, efallai bod yna ddadl dros gael rhai modelau 3G, a chytunodd i edrych i mewn i'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD symud ymlaen gydag uchelgais y Cyngor o beidio defnyddio papur fel norm, gan gofio negeseuon y drafodaeth uchod.**

## 4. CEFNOGAETH I AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno gwybodaeth am gefnogaeth i aelodau ac yn gwahodd y pwyllgor i herio'r cynnydd ar ddatblygiadau.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol fod yr Arweinydd am bwysleisio fod y Cabinet yn clywed y neges bod aelodau eraill yn teimlo nad ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd nac yn gallu dylanwadu a bod y symudiad tuag at gynnal cymorthfeydd, gweithdai, ac ati, yn fodd o oresgyn hynny.

Ymhelaethodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ar y gwahanol bwyntiau wrth fynd drwy'r adroddiad.

Mynegwyd pryder bod Aelodau Cabinet yn siarad yn y wasg ar faterion sy'n effeithio ar wardiau penodol heb gysylltu â'r aelod lleol.

Mynegwyd anfodlonrwydd hefyd ynglŷn â hawliau'r aelod lleol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio ar y sail nad oedd modd iddynt ymateb yn ystod, nac ar ddiwedd y drafodaeth.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cyflwyno'r adroddiad hwn i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn ar 4 Hydref er mwyn codi ymwybyddiaeth yr aelodau o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt, neu sydd wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.**

**(b) Cynnwys rhan ychwanegol i'r adroddiad ynglŷn â rôl a hawliau'r aelod lleol, sy'n esbonio sut y gall aelod lleol gael gwybodaeth ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn ei ward, ei hawliau mewn perthynas â'r Cabinet a sut i gysylltu ag Aelod Cabinet os nad yw wedi cael ei fodloni gan ymateb swyddog. Dylid pwysleisio hefyd bod disgwyl i Aelod Cabinet (neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran) gysylltu â'r aelod lleol mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar ei ward.**

**(c) Cyfeirio'r sylw ynglŷn â hawliau'r aelod lleol yn y Pwyllgor Cynllunio i'r Pennaeth Rheoleiddio a'r Swyddog Monitro gan ofyn iddynt gyd-drafod a dod yn ôl at yr aelodau.**

## 5. ADRODDIADAU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Cadeirydd a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn manylu ar y gofyn tebygol ym Mesur Llywodraeth Cymru (2011) i bob aelod etholedig gyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch ei weithgareddau fel aelod o'r awdurdod ac yn gofyn i'r pwyllgor gynnig arweiniad cychwynnol ar natur a fformat yr adroddiad er mwyn cwblhau gwaith pellach arno.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cynnwys y mater yn yr adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn ar 4 Hydref er mwyn codi ymwybyddiaeth yr holl aelodau o'r disgwyliad tebygol arnynt i gyhoeddi adroddiadau blynyddol, gan awgrymu bod pawb yn cychwyn cadw cofnod o'u prif weithgareddau.**

**(b) Gwahodd sylwadau'r aelodau ar y model o adroddiad blynyddol a ddatblygwyd gan Gyngor Penybont-ar-Ogwr.**

**(c) Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn llunio adroddiad pellach yn argymell y ffordd ymlaen i'r pwyllgor hwn a bod ei hargymhellion:-**

- **Yn ymateb i'r ystyriaethau a nodwyd yn rhan (3) o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn;**
- **Yn dilyn / ymateb i'r canllawiau pellach sydd i'w cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru;**
- **Yn seiliedig ar waith ymchwil pellach i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru yn gyfredol.**

## 6. HYFFORDDIANT AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Cadeirydd a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn gwahodd y pwyllgor i argymell y ffordd ymlaen gyda datblygiadau hyfforddiant.

Mewn ymateb i gwynion am wrthdaro diweddar rhwng cyfarfod o Gydbwyllgor Ymgynghorol Lleol y Cyngor a Sesiwn Anwytho Cynghorau Gogledd Cymru i aelodau a

newid yn amser y sesiwn, ymddiheurwyd am y sefyllfa gan nodi y gofynnid bellach i'r holl swyddogion wirio dyddiadur electronig y Cyngor cyn trefnu unrhyw gyfarfodydd aelodau.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Sefydlu is-grŵp o'r pwyllgor hwn (sef y Cadeirydd ynghyd â'r Cynghorwyr Lesley Day, Dilwyn Morgan a Mandy Williams-Davies) i drafod hyfforddiant ychwanegol i aelodau a gofynion y dyfodol, ynghyd ag unrhyw faterion eraill perthnasol i hyfforddiant, gyda'r Rheolwr Dysgu a Datblygu a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, gan adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf ar 11 Rhagfyr, 2012.**

**(b) Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â'r Cynghorydd Jason Humphreys (oedd wedi gorfod gadael y cyfarfod yn gynnar) i ofyn a fyddai ganddo ef, neu aelod arall o Lais Gwynedd ar y pwyllgor, ddiddordeb mewn gwasanaethu ar yr is-grŵp.**

## 7. ADNODDAU I GEFNOGI GWAITH AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella yn argymell gwneud cais i ddileu cynllun i sicrhau arbediad o £54,000 yng nghyllideb yr hen Adran Democratiaeth a Chyfreithiol yn 2013/14. Eglurodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol, yn sgil trosglwyddo'r Gwasanaethau Democrataidd i'r Adran Strategol a Gwella ac edrych o'r newydd ar yr anghenion, y daeth yn amlwg na fyddai modd gwireddu'r arbediad a pharhau i roi'r gefnogaeth angenrheidiol i aelodau'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD derbyn nad oes modd gwireddu'r cynllun arbediad a chyflawni'r angen o roi'r gefnogaeth angenrheidiol i aelodau'r Cyngor gan wneud cais i'r Aelod Cabinet - Adnoddau y bydd modd addasu'r Strategaeth Arbedion i gydnabod hynny.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.50am.